





# CANOLFAN CHWARAEON RHONDDA FACH

## GOSOD SYSTEM SOLAR FFOTOFOLATÄIG

*Wedi'i darparu gan Garfan Lleihau Ynni a Charbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Ionawr 2022*

**20.7 TUNNELL O $CO_2$**

**89,428 kWh**

**£31,300**

Cafodd system ffotofolatäig 150kWp ei chomisiynu ym mis Ionawr 2022 ar gyfer Canolfan Chwaraeon Rhondda Fach i ychwanegu at system lai sy'n bodoli eisoes. Mae'r gosodiad solar yn cynhyrchu trydan o olau dydd ac yn cyflenwi system drydanol y ganolfan hamdden, sydd hefyd yn ganolbwynt i brif ganolfan data Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn disodli trydan sy'n cael ei fewnforio ac wedi'i gyflenwi o'r grid cenedlaethol ac mae'n arbed arian ar gostau trydan.

Mae data'n dangos bod y prosiect yn arbed ychydig dan 90,000 kWh y flwyddyn, sy'n cyfateb i £31,300 ar filiau ynni blynyddol (yn seiliedig ar gostau ynni presennol). Mae'r gosodiad yma'n parhau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor 20.7 tunnell y flwyddyn, gan helpu'r Cyngor i symud tuag at ei darged o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

**CYSYLLTWCH Â NI** Ynni@rctcbc.gov.uk